

Maer Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful 2012 - 2013

Y Cynghorydd Lisa Mytton

Cafodd y Cynghorydd Lisa Mytton ei hethol i Swyddfa Maer Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar 16 Mai 2012. Bu'n cynrychioli Ward Etholiadol y Faenor ers Mai 2008. Mae Lisa'n byw yng Nghefn Coed gyda'i gŵr, Philip a'u plant, James a Beth. Yn ogystal â threulio amser gyda'i theulu, mae Lisa'n cefnogi ysgolion ei phlant fel aelod o'r CRhaA, mae'n mwynhau trefnu gweithgareddau lleol ar gyfer preswylwyr ac mae wrth ei bodd â chŵn gan gefnogi sefydliadau sydd yn achub anifeiliaid.

Fel Preswyllydd Cyntaf Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, mae cyfrifoldebau'r Cynghorydd Mytton yn cynnwys cadeirio cyfarfodydd llawn y Cyngor a chynrychioli'r Cyngor ar achlysuron ffurfiol, seremonïol yn y Fwrdeistref Sirol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'n croesawu ymwelwyr i'r Fwrdeistref Sirol ac yn mynychu ac yn cefnogi digwyddiadau a drefnwyd gan bobl leol a sefydliadau.

Yn ystod ei blwyddyn yn y swydd, bydd y Maer yn brysur yn codi arian tuag at ei helusen ddewisedig sef Cancer Aid Merthyr Tydfil.

Hoffai'r Maer diwethaf a'i Gydymaith ar gyfer 2012 – 2013 gyhoeddi, yn ystod eu blwyddyn iddynt godi cyfanswm o £39,617.93 ar y cyd â Cancer Aid Merthyr Tydfil. Hoffem ddiolch i bob noddwr ac i breswylwyr Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful am eu cymorth a'u haelioni.